Cylchlythyr #1: Gaeaf 2017

Pencampwyr Rhywogaethau

ACau yn codi llais dros rywogaethau sydd dan fygythiad ac mewn perygl

Pwy yw Pencampwyr Rhywogaethau'r Cynulliad?

Gwiber - Hefin David
Môr-wennol y gogledd - Hannah Blythyn
Onnen - David Melding
Pâl - Paul Davies
Cacynnen y llus - Leanne Wood
Chwilen olew ddu - Rebecca Evans
Dolffin trwyn potel - Joyce Watson
Y brithyll - Kirsty Williams
Brân goesgoch - Rhun ap Iorwerth
Llyffant dafadennog - Jeremy Miles
Gylfinir - Mark Isherwood
Pathew - Llŷr Gruffydd
Corryn rafft y ffen - Caroline Jones
Misglen befriog yr afon - Nick Ramsay
Ystlum pedol mwyaf - Angela Burns
Morlo llwyd - Dai Lloyd
Llamhidydd - Janet Finch-Saunders
Draenog - Lee Waters
Britheg frown - Jane Hutt
Llyngyren ddiliau - Siân Gwenllian
Cornchwiglen - Huw Irranca-Davies
Ystlum pedol lleiaf - Suzy Davies
Wystrys brodorol - Julie James
Troellwr mawr - Vikki Howells
Britheg berlog - Russell George
Bele - Simon Thomas
Gwiwer goch - Darren Millar
Y Siwin - Elin Jones
Hwyaden yr eithin - Jayne Bryant
Cardwenynen feinlais - Steffan Lewis
Glesyn bach - Mike Hedges
Mwsogl sphagnum - Alun Davies
Gwennol ddu - Jenny Rathbone
Llinos y mynydd - Siân Gwenllian
Llygoden bengron y dŵr - John Griffiths
Madarch cap cwyr - Julie Morgan
Cennin Pedr Cymreig - Vaughan Gething

ACau yn gwylio adar gyda'r Gymdeithas Gwarchod Adar



Jayne Bryant AC yng Ngwlypdiroedd Casnewydd (y Gymdeithas Gwarchod Adar), gyda Tom Dalrymple (Adnoddau Naturiol Cymru) ac Owen Jones (swyddfa Jayne yn y Cynulliad).

Bu'n haf prysur i pencampwyr y Gymdeithas Gwarchod Adar, gyda phump AM yn gwisgo eu welis ac yn cyfnewid Bae Caerdydd am yr awyr agored i drafod yr hyn y gallant ei wneud dros eu rhywogaeth. Ymwelodd Vikki Howells, Pencampwyr Rhywogaeth y troellwr mawr, â fferm wynt Pen y Cymoedd. Bu'n ddigon ffodus i weld un o'r adar sydd wedi'i dagio, fel y gall gwyddonwyr olrhain ei symudiadau. Fe ymddangosodd rhywogaeth Jayne Bryant hefyd, sef hwyaden yr eithin, pan ymwelodd â gwarchodfa Gwlypdiroedd Casnewydd (Cymdeithas Gwarchod Adar). Clywodd Jayne sut mae datblygiad arfordirol yn bygwth yr aberoedd, sef cynefin hwyaden yr eithin.

Ni wnaeth y glaw atal Paul Davies rhag teithio i Ynys Dewi ym mis Medi. Clywodd Paul sut mae'r tîm yno'n defnyddio recordiadau sain i ddenu'r palod yn ôl i'r ynys ar ôl cael gwared â llygod mawr anfrodorol yn llwyddiannus. Roedd yr olygfa o'r lloi ar y traeth yn fonws ychwanegol! Ymwelodd Siân Gwenllian â dwy fferm yn Nant Ffrancon i glywed am eu gwaith gyda'r prosiect adfer llinos y mynydd. Yn olaf, bu'n rhaid i Hannah Blythyn, pencampwr mwyaf diweddar y Gymdeithas lapio amdani'n gynnes ar ei hymweliad ag Aber yr Afon Ddyfrdwy. Yn anffodus, dyma'r adeg anghywir o'r flwyddyn i weld môr-wennol y Gogledd, sy'n hedfan drwy geg yr aber wrth ymfudo bob blwyddyn, ond cymerodd Hannah y cyfle i drafod materion sy'n bygwth yr ecosystemau morol maent yn dibynnu arnynt.

Cyfranwyr: Jess Chappell, RSPB; Helen Kidwell, Vincent Wildlife Trust; Russel Hobson, Butterfly Conservation Wales; Clare Dinham, Buglife; Liz Smith, WEL.
Tynwyr lluniau: Jess Chappell, Russel Hobson, Vincent Wildlife Trust, Buglife, Nigel Pugh.

Bele'r coed yn dychwelyd i ganolbarth Cymru



Mae un o'n mamaliaid prinnaf a mwyaf carismatig yn adfeddiannu ei filltir sgwâr yng Nghymru. Prinhaodd bele'r coed yma yn gynnar yn yr 20fed ganrif, ond roedd niferoedd isel yn dal i fyw mewn rhannau o Fynyddoedd Cambria, Sir Gaerfyrddin ac Eryri. Heddiw, mae bele'r coed yn gwneud yn dda yn yr Alban, ond nid yw'r adferiad hwn wedi digwydd yng Nghymru ac mae'r boblogaeth yn annhebygol o oroesi heb ymyrraeth.

Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, trawsleolwyd bele'r coed o'r Alban i Gymru fel rhan o Brosiect Adfer Bele'r Coed Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent. Nod y prosiect yw adfer poblogaeth iach o fele'r coed yng nghefn gwlad Cymru a Lloegr.

Yn 2016, daeth Simon Thomas AC yn Bencampwr Rhywogaeth bele'r coed ac ymwelodd â safle Prosiect Adfer Bele'r Coed yng nghanolbarth Cymru. Fe wnaeth Simon gael profiad o dracio radio rhai o'r 20 bele'r coed sydd wedi eu hadleoli yn ystod blwyddyn gyntaf y prosiect. Ers ei ymweliad, mae 31 bele'r coed arall wedi eu rhyddhau a chadarnhawyd bod bele'r coed bellach yn bridio yn llwyddiannus yng Nghymru.

Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent (VWT) yn hynod ddiolchgar am gefnogaeth barhaus Simon Thomas a'r gymuned leol yng nghanolbarth Cymru. Efallai fod y trawsleoliadau wedi gorffen ond bydd lledaeniad poblogaeth bele'r coed yn dal i gael ei fonitro drwy gyfrwng trapiau camera, tiwbiau blew ac arolygon baw. Os credwch eich bod chi wedi gweld bele'r coed yng Nghymru neu Loegr, rhowch wybod drwy www.vwt.org.uk.

Gwylio gloÿnnod byw gyda Jane Hutt

Bu'n haf pryderus i'r rhai sy'n hoffi gloÿnnod byw, gan fod Cyfrif Mawr Glöynnod Byw - a gynhelir gan Gymdeithas Gwarchod Glöynnod Byw - wedi canfod gostyngiad yn niferoedd tair rhywogaeth gyffredin o loÿnnod byw ledled y Deyrnas Unedig. Mae llawer o'r rhain oherwydd yr haf gwlyb, gan eu bod yn ffynnu mewn amodau cynhesach a mwy o heulwen. Fodd bynnag, roedd y fantell goch sy'n boblogaidd, wedi cynyddu o 75% o'r llynedd a chyfrifwyd dros 73,000 yng nghyfrifiad eleni.



O'r chwith i'r dde: Richard Smith, Gwarchod Glöynnod Byw De Cymru; Jane Hutt AC; Russel Hobson, Gwarchod Glöynnod Byw Cymru.

Ym mis Gorffennaf, cafodd Jane Hutt weld y rhywogaeth mae hi'n ei hyrwyddo - y fritheg frown – wrth ymweld â safle yng Nghwm Alun ger Ewenni. Dyma'r glöyn byw prinnaf yng Nghymru sydd wedi gostwng 96% ar draws y Deyrnas Unedig ers y 1970au. Gwelodd Jane hefyd y fritheg werdd a'r fritheg berlog. Meddai: "Rwy'n falch fy mod yn Bencampwr Rhywogaeth ar gyfer y fritheg frown ac yn credu fod y prosiect yn syniad gwych gan ei fod yn bwysig iawn codi ymwybyddiaeth a chefnogi gwaith hanfodol gwirfoddolwyr."

Mae Cymdeithas Gwarchod Glöynnod Byw wedi treulio'r 15 mlynedd diwethaf yn gweithio i adfer ardaloedd yn Nyffryn Alun ar gyfer gloÿnnod byw. Mae hyn yn golygu torri rhedyn a llwyni yn rheolaidd i adael golau i'r llecynnau yma ac annog planhigion fel y fioled, sy'n fwyd i'r lindys, i ffynnu. Bob haf, mae gwirfoddolwyr yn cerdded bron i 3 milltir yr wythnos i gyfrif niferoedd y gloÿnnod byw maent yn eu gweld. Mae hyn yn hanfodol i wirio a yw'r gwaith cadwraeth yn llwyddiannus. Roedd siom fod y cyfrif eleni yr isaf ers bron i 5 mlynedd, yn bennaf oherwydd tywydd gwael 2016, ond mae'r niferoedd y dyffryn yn dal i fod yn fwy na dwbl yr hyn oeddent ar ddiwedd y 1990au cyn dechrau ar y gwaith cadwraeth. Mae'r fritheg frown yn un sy'n annhebygol o elwa o ddull adfer ecosystemau ar raddfa eang gan ei bod mor brin, gyda gofynion mor fanwl.


Canfod corryn rafftio'r gors galchog gyda Caroline Jones



Corryn rafftio'r gors galchog yw'r corryn neu'r pryf copyn mwyaf yng Nghymru ac un o'n rhai prinnaf. Gall y benywod gyrraedd hyd at 23mm o hyd (heb gynnwys y coesau!) ac maent yn lled ddyfrol. Maent yn defnyddio ymylon pyllau a chamlesi i hela drwy synhwyro dirgryniadau ar wyneb y dŵr. Nid y rhywogaeth ddelfrydol ar gyfer Pencampwr Rhywogaethau arachnoffobaidd efallai! Er ei bod yn caru pob bywyd gwyllt, roedd Caroline Jones ychydig yn bryderus ynghylch bod yn agos at bryfed cop, fel mae llawer o bobl.



Serch hynny, roedd Caroline yn fodlon dysgu am y rhywogaeth a chytunodd i ddod yn Bencampwr Rhywogaeth ar gyfer corryn rafftio'r gors galchog. Cymerodd Clare Dinham o Buglife Cymru'r cyfle i ddangos ei rhywogaeth i Caroline ym mis Awst eleni. Buont yn ymweld â Chamlas Tennant yng Nghastell-nedd Port Talbot, un o ddim ond llond llaw o safleoedd lle gellir dod o hyd i'r pryf copyn hwn. Roedd y tywydd yn wych ar y diwrnod a gyda chymorth Jamie Bevan, Uwch Reolwr Gwarchodfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), roeddem yn ddigon ffodus i weld sawl pryf cop, gan gynnwys dau oedolyn benywaidd gyda chodau wyau. Maen nhw'n famau gofalus iawn - maent yn cario eu codau wyau gyda nhw am hyd at bedair wythnos, gan eu rhoi mewn dŵr i'w hoeri ar ddyddiau poeth. Pan fo'r ifanc yn barod i ddeor, mae'r fenyw yn gweu gwe feithrinfa fel pabell ac mae hi'n gwarchod y babell hon wrth i'r rhai bach dyfu. Roedd Caroline wedi rhyfeddu at y pry copyn anhygoel hwn ac mae wedi addo hyrwyddo ei rhywogaeth yn y Cynulliad.



Teyrnged i Bencampwr y Pibydd Coesgoch

Dymuna Cyswllt Amgylchedd Cymru dalu teyrnged i Carl Sargeant, a fu'n gweithio gyda'r Gymdeithas Gwarchod Adar fel Pencampwr Rhywogaethau ar gyfer y pibydd coesgoch. Yn y sector amgylchedd, mae ei etifeddiaeth yn anghymharol, ar ôl cyflwyno Deddf Cynllunio, Deddf yr Amgylchedd a Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. Oherwydd Deddf yr Amgylchedd mae gan bob awdurdod cyhoeddus bellach ddyletswydd bioamrywiaeth i sicrhau eu bod yn cynnal a gwella bioamrywiaeth, yn ogystal â hyrwyddo cadernid ecosystemau. Bydd ei weithredoedd fel Gweinidog dros Adnoddau Naturiol o fudd i fywyd gwyllt am genedlaethau i ddod.

Dau Pencampwr newydd i bysgod

Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn falch o gyhoeddi y bydd dau Lysgennad Pysgod Gwyllt yn y Cynulliad yn 'ymfudo' i'r prosiect Pencampwr Rhywogaethau.

Roedd Elin Jones AC, Pencampwr y Sewin, a Kirsty Williams, Pencampwr y Brithyll, yn gweithio gydag Afonydd Cymru a Gwarchod Eogiaid a Brithyll Cymru, sy'n aelodau o Cyswllt Amgylchedd Cymru, i godi proffil pysgod dŵr croyw sy'n cynrychioli gwerthoedd ecolegol, diwylliannol ac economaidd sylweddol i Gymru.

Nawr bod y prosiect Pencampwyr Rhywogaethau wedi'i sefydlu, mae ei ragflaenydd Llysgenhadon Pysgod Gwyllt wedi cytuno i barhau ochr yn ochr â'r 34 Pencampwyr Rhywogaethau eraill.

Mae'r pysgod hyn yn dirywio oherwydd amrywiaeth eang o ffactorau sy'n effeithio'n andwyol ar ansawdd dyfroedd croyw Cymru. Yn 'Gwerthfawrogi ein Dyfroedd Croyw', nododd aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru weithredoedd i adfywio ein hafonydd. Yn 2011, nid oedd 66% o afonydd, llynnoedd a gwlypdiroedd Cymru yn bodloni 'Statws Ecolegol Da' sy'n ofynnol dan Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n hanfodol adfer ecosystemau dyfrol, yn enwedig wrth i'r newid yn yr hinsawdd gynyddu'r risg o sychder. Am ragor o wybodaeth, darllenwch 'Gwerthfawrogi ein Dyfroedd Croyw' yma: http://bit.ly/WELFreshwaters

Dathlu blwyddyn o Hyrwyddwyr Rhywogaethau yn y Senedd









Ym mis Mehefin 2017, fe ddaethom â thros 30 o ACau sy'n Bencampwyr Rhywogaethau a ymunodd dros y flwyddyn ddiwethaf at ei gilydd, i ddiolch iddynt am godi llais dros fywyd gwyllt bregus Cymru yn y Senedd. Fe wnaethom hyd yn oed ddod â dau westai arbennig i ddangos eu diolchgarwch i'r ACau: tri draenog (un oedolyn a dau o rai bach) ac un ystlum lleiaf bach iawn. Diolch yn fawr i Linell Gymorth Draenogod ac Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru am ddod â nhw i mewn a diolch i Jenny Rathbone AC am noddi'r digwyddiad.

Cynhyrchodd Cyswllt Amgylchedd Cymru ffeithluniau ar gyfer pob un o'n Pencampwyr i arddangos y gwahanol rywogaethau ar Twitter, ochr yn ochr â'n sesiynau briffio cynhwysfawr. Mae'r rhain i gyd i'w gweld ar wefan Cyswllt Amgylchedd Cymru: www.waleslink.org/species_champions



O'r chwith i'r dde: Hefin David, Steffan Lewis, David Melding, Julie James, Russell George, Vikki Howells, Huw Irranca-Davies, Julie Morgan, Janet Finch-Saunders, Jenny Rathbone, Simon Thomas, Hannah Blythyn, Paul Davies, Elin Jones, Caroline Jones, Darren Millar. Tu allan i'r Senedd ym Mehefin 2017.

O'r top i'r gwaelod: Sam Packer o Coed Cadw gyda David Melding AC; Huw Irranca-Davies AC gyda Sharon Thompson o'r Gymdeithas Gwarchod Adar; Matt Shardlow, Caroline Jones AC a Clare Dinham o Buglife. Mick Antoniw AC gyda draenog bach ar ymweliad â'r Senedd.

Beth yw prosiect Pencampwyr Rhywogaethau Cyswllt Amgylchedd Cymru?

Mae'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol yn gytundeb rhyngwladol i warchod ein bywyd gwyllt gyda tharged i atal colli bioamrywiaeth erbyn 2020. Mae dull Cymru o reoli adnoddau naturiol drwy'r dull ecosystem - fel y'i hymgorfforir yn Neddf yr Amgylchedd - yn gorfodi diogelu rhywogaethau rhag colli cynefinoedd, llygredd a datblygiadau niweidiol. Trefnir Hyrwyddwyr Rhywogaethau gan Cyswllt Amgylchedd Cymru a'n chwaer Ddolenni yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Gofynnir i ACau - ochr yn ochr ag ASau, Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon - i roi cymorth gwleidyddol i amddiffyn bywyd gwyllt sydd dan fygythiad. DDrwy fod yn Bencampwr Rhywogaethau, gall Aelodau'r Cynulliad ddysgu oddi wrth aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru am y rhywogaethau, mynd ar ymweliadau safle i weld lle ceir hyd iddynt yn eu hetholaeth a dysgu am yr hyn sydd angen ei wneud i atal eu dirywiad. Aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru isod yw'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiect.